# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2021/2022

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/03/2022. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd: Gwilym O Jones**
**Parti/Grŵp: Y Grŵp Annibynnol** **Ward: Llifon**

## 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

| **Rhwng 05/2021 a 04/2022, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | **Crynodeb o Bresenoldeb** |
|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgAttendance |
| Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) | |
| Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | |
| Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau | |
| Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol | |
| Y Fforwm Iaith | |
| Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | |
| Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn | |
| Nid yw'r rhestr uchod yn cynnwys pob cyfarfod sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.<br><br>Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft. | |

Rwy'n aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Buddsoddi a Chontractau'r Ymddiriedolaeth – mae manylion am fy mhresenoldeb yn y cyfarfodydd hyn ar gael hefyd ar y ddolen uchod.

Rwyf wedi cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:

| **Corff allanol** | **Crynodeb o rôl a chyfraniad** |
|---|---|
| Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa | |
| Llywodraethwr – Ysgol Gynradd Y Fali | |
| Llywodraethwr - Ysgol Uwchradd Bodedern | |
| Pencampwr Sgriwtini | |
| Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol | |

**2 - Gweithgareddau yn y Ward**

Rwy'n gweithredu fel aelod o Gyrff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Bodedern ac Ysgol Y Fali.

Rwyf yn aelod o Gyngor Cymuned Llanfair yn Neubwll ac yn mynychu cyfarfodydd Cynghorau Cymuned Y Fali a Llanfaelog fel sylwebydd. Bûm yn delio ag amrywiaeth o bynciau a materion ar ran Etholwyr yn y Ward – naill ai'n bersonol, trwy e-bost neu ar y ffôn.

**3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Parheais gyda'r trefniant gyda'm cyd aelod o gyfarfod etholwyr ardal Rhosneigr yn Neuadd y Pentref er mwyn trafod amrywiol bynciau.

Yn rhinwedd fy swydd fel Cadeirydd Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio'r Cyngor Sir, fe'm penodwyd yn Bencampwr Sgriwtini am y flwyddyn 2021/22.

**4 - Dysgu a Datblygu**

Mae gwybodaeth am y mentrau dysgu a datblygu rwyf wedi'u mynychu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gael ar y ddolen isod (gwybodaeth wedi'i darparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgListTraining

**5 - Gweithgareddau a Materion Eraill**

Sefydlwyd Cynghrair Llifon lle buom yn ymwneud â diogelwch cymunedol yn cynnwys traffig, goryrru a pharcio yn y Ward.

Cefais y pleser o annerch disgyblion Bl. 6 Ysgol Y Fali i rannu gwybodaeth am waith y Cyngor Sir.

Fel Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, bûm yn cydweithio'n agos efo swyddogion Sgriwtini i drefnu a pharatoi at gyfarfodydd.

Cefais y fraint o gael cadeirio'r Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion yn ystod y weinyddiaeth hyd at fis Mai 2022.

Yr elfen bwysicaf yng ngwaith Cynghorydd yw eiriol ar ran ei etholwyr a bu ymgymryd â'r cyfrifoldebau hynny yn fraint, hyd yn oed os na chafwyd canlyniadau llwyddiannus bob amser.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:
Cyngor Sir Ynys Môn (ynysmon.gov.uk)

| | |
|---|---|
| **Cynghorydd: Gwilym O. Jones** | **Ebrill 2022** |